Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Bwyd (Cymru)

Mai 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Bwyd (Cymru)

Mai 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy wrth graffu ar y Bil.



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .......... 5**

Diben y Bil .......... 5

Cefndir .......... 6

Cylch gwaith y Pwyllgor .......... 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol .......... 9**

Cyffredinol .......... 9

Hawliau dynol .......... 9

Ein barn ni .......... 10

**3. Sylwadau cyffredinol .......... 11**

Ymgynghori cyn cyflwyno'r Bil .......... 11

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru .......... 11

Yr angen am ddeddfwriaeth .......... 14

Strategaeth bwyd cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cymru .......... 17

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .......... 19

Ffyrdd ar gyfer ymgorffori darpariaethau'r Bil mewn deddfwriaeth arall .......... 21

Effaith Deddf y Farchnad Fewnol .......... 22

Y cydbwysedd rhwng wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth .......... 23

Ein barn ni .......... 24

**4. Sylwadau penodol ar adrannau a phwerau neilltuol i wneud is-ddeddfwriaeth .......... 27**

Adrannau 2 a 3 (Prif nod bwyd a nodau bwyd eilaidd) .......... 27

Adran 3(2) (Pŵer i ddiwygio'r disgrifiad o nodau bwyd eilaidd) .......... 29

Adran 3(3) (Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i ddiwygio'r disgrifiad o nodau bwyd eilaidd) ..... 30

Ein barn ni ..... 31

Adrannau 4 i 7 (Targedau bwyd) ..... 32

Ein barn ni ..... 35

Adrannau 8 i 10 a'r Atodlen (Comisiwn Bwyd Cymru) ..... 36

Darparu canllawiau gan Gomisiwn Bwyd Cymru ..... 38

Darpariaethau yn dod i rym ..... 39

Ein barn ni ..... 40

Adran 12 (Strategaeth fwyd genedlaethol) ..... 40

Ein barn ni ..... 42

Adran 17 (Cynlluniau bwyd lleol) ..... 42

Ein barn ni ..... 43

Adran 22 (Ystyr corff cyhoeddus) ..... 44

Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau ..... 44

Ein barn ni ..... 45

# 1. Cyflwyniad

## Ar 12 Rhagfyr 2022, cafodd y Bil Bwyd (Cymru) (y Bil)[1] ei gyflwyno gan Peter Fox AS (yr Aelod sy'n gyfrifol). Gosododd Femorandwm Esboniadol (y Memorandwm) sy'n cyd-fynd ag ef hefyd.[2]

**1.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 29 Tachwedd 2022, ac ar 13 Rhagfyr 2022 gosododd y terfyn amser o 28 Ebrill 2023 ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.[3] Ar 14 Chwefror 2023, ymestynnodd y Pwyllgor Busnes y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad i 12 Mai 2023.

**2.** Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.[4]

## Diben y Bil

**3.** Yn ôl ei deitl hir, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â nodau bwyd;
- gosod targedau mewn cysylltiad â nodau bwyd;
- sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru;
- gwneud strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol yn ofynnol; ac
- at ddibenion cysylltiedig.

[1] Y Bil Bwyd (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Y Bil Bwyd (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2022
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), Chwefror 2023
[4] Y Bil Bwyd (Cymru): Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn, Rhagfyr 2022

## Cefndir

**4.** Mae Rheol Sefydlog 26.87 yn darparu, o bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil (Bil Aelod).[5]

**5.** Ar 22 Medi 2021, cynhaliodd y Llywydd y balot Bil Aelod cyntaf ar gyfer y Chweched Senedd, lle bu cynnig yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru) yn llwyddiannus.[6]

**6.** Mae'r wybodaeth cyn y balot a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn nodi amcanion polisi y Bil arfaethedig fel a ganlyn:

> *"Diben y Bil yw sefydlu system fwyd mwy cynaliadwy yng Nghymru i wella diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr."*[7]

**7.** Roedd y wybodaeth cyn y balot yn nodi y byddai'r Bil arfaethedig hefyd yn ceisio:

- rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Strategaeth Fwyd flynyddol;
- sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill ddatblygu cynlluniau bwyd cymunedol;
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar lefelau cynhyrchu bwyd, a datblygu cyfres o ddangosyddion cysylltiedig;
- mandadu archfarchnadoedd a siopau perthnasol eraill i roi bwyd diangen i elusennau a banciau bwyd; a
- chryfhau'r gofynion statudol ar gyfer labeli bwyd.[8]

**8.** Ar 27 Hydref 2021, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91A, gosododd yr Aelod sy'n gyfrifol Femorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil arfaethedig. Dywedodd yn y Memorandwm Esboniadol fod "nifer o sefydliadau ac unigolion â buddiant yn y system fwyd" wedi dangos diddordeb a chefnogaeth i egwyddorion cyffredinol ac

[5] Gweler Canllaw i'r broses ar gyfer Bil Aelod, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, i gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn Bil Aelod.
[6] Y Cyfarfod Llawn, 21 Medi 2021
[7] Senedd Cymru, Cynigion a gyflwynwyd ar gyfer Bil Aelod: Cynnig 018 – Peter Fox AS, 6 Medi 2021
[8] Senedd Cymru, Cynigion a gyflwynwyd ar gyfer Bil Aelod: Cynnig 018 – Peter Fox AS, 6 Medi 2021

amcanion polisi y Bil, a bod "cefnogaeth drawsbleidiol" i'r cynigion hefyd, "gydag Aelodau o'r Senedd o bleidiau gwleidyddol gwahanol yn nodi eu cefnogaeth bersonol a gwleidyddol ar gyfer nodau cyffredinol y Bil."[9]

**9.** Ar 17 Tachwedd 2021, cafodd yr Aelod sy'n gyfrifol gytundeb y Senedd i gyflwyno'r Bil.[10] Yn ystod y ddadl ar y cynnig i geisio cytundeb y Senedd, siaradodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog) ar ran Llywodraeth Cymru, gan ddweud nad oedd yn gallu cefnogi'r Bil fel y'i cynigiwyd.[11]

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**10.** Cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**11.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a ddewiswyd gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**12.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog, mewn perthynas â'r Bil, ar 23 Ionawr 2023.[12]

**13.** Ysgrifennodd yr Aelod sy'n gyfrifol atom ar 25 Ionawr 2023 i ymateb i faterion a godwyd gan y Gweinidog yn ei thystiolaeth lafar.[13]

[9] Memorandwm Esboniadol: Y Bil Bwyd (Cymru), Hydref 2021
[10] Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, eitem 7
[11] Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion [255]
[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion
[13] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023

**14.** Clywsom dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol ar 30 Ionawr 2023.[14] Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu ato ar 16 Chwefror 2023 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.[15] Ymatebodd yr Aelod sy'n gyfrifol ar 8 Mawrth 2023.[16]

[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion
[15] Llythyr at Peter Fox AS, 16 Chwefror 2023
[16] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[17]

## Cyffredinol

**15.** Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**16.** Nododd Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[18]

**17.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol mewn tystiolaeth lafar ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[19]

**18.** Er i'r Gweinidog nodi ei bod o'r farn bod y mater o ran a yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yn fater i'r Aelod sy'n gyfrifol a'r Llywydd ei ystyried, dywedodd:

> *"In general, I would say that, yes, I think* [the Bill] *falls within legislative competence, but I wouldn't say we've gone into it very deeply."*[20]

## Hawliau dynol

**19.** Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid i Fil ei fodloni er mwyn bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod holl ddarpariaethau Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**20.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn ei ystyried yn fater i'r Aelod sy'n gyfrifol a'r Llywydd ddod i'r casgliad a oedd unrhyw faterion o ran hawliau dynol yn codi yn sgil y Bil, er nad oedd unrhyw beth wedi'i amlygu.[21]

[17] Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1
[18] Senedd Cymru, Y Bil Bwyd (Cymru): Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol, 12 Rhagfyr 2022
[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [55]
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [29]
[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [57]

## Ein barn ni

**21.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth mewn perthynas â materion o ran cymhwysedd deddfwriaethol gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â'r materion hynny. Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**22.** Mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau posibl o ran hawliau dynol yn sgil y Bil, rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom ynghylch pa mor gydnaws yw'r Bil â hawliau dynol.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Ymgynghori cyn cyflwyno'r Bil

**23.** Ar 18 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o'r Bil.[22] Heb fod yn annhebyg i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, roedd y Bil drafft yn cynnwys darpariaeth i wneud y canlynol:

- gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â nodau bwyd;
- gosod targedau mewn cysylltiad â nodau bwyd;
- sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru;
- gwneud strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol yn ofynnol; ac
- at ddibenion cysylltiedig.

**24.** Yn y ddogfen ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei fod, yn ystod y gwaith datblygu, wedi "cynnal trafodaethau ac ymgynghoriadau cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd" ac wedi "ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chydweithwyr gwleidyddol yn y Senedd."[23]

**25.** Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, a oedd yn nodi bod "cefnogaeth gref" i brif nodweddion y Bil drafft.[24]

## Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

**26.** Gwnaethom holi'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch lefel yr ymgysylltiad a gafodd â'r Gweinidog yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil. Dywedodd wrthym:

> *"Engagement opportunities with the Minister for this have taken three occasions. The first occasion was the initial overview, just after we took it, 13 months ago. The Minister made it very clear to me at that point that she didn't want to introduce legislation for legislation's sake and she didn't believe*

[22] Senedd Cymru, Ymgynghoriad: Datblygu'r Bil Bwyd (Cymru), Gorffennaf 2022
[23] Senedd Cymru, Ymgynghoriad: Datblygu'r Bil Bwyd (Cymru): Dogfen Ymgynghori, Gorffennaf 2022, tudalen 3
[24] Senedd Cymru, Ymgynghoriad: Datblygu'r Bil Bwyd (Cymru): Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, Hydref 2022

*there was any need for this and it could be done with her existing legislative framework … Then, I think we met a follow-up time … And Lesley* [the Minister] *was trying to understand a little bit more about what we were trying to do, but expressed her main sticking concerns were with the idea of a commission. … Cefin* [Campbell, aelod dynodedig Plaid Cymru ar gyfer y Cytundeb Cydweithio] *joined us on the third occasion. Again, the Minister wanted to understand further, and this is where we referred a little bit to the proposal for a community food strategy.*

*… what we haven't had, which I think I'm slightly disappointed in, is that Government and officials didn't say … I haven't had an opportunity to sit down and say, 'Look, are there elements of this Bill that might be more conducive to your thinking? Where are things that we could do differently that might make a way forward for you?' Not once have I been offered that opportunity. It's almost, 'This isn't going to happen whatever you decide'."*[25]

**27.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog rannu ei safbwyntiau ar ei hymgysylltiad â'r Aelod sy'n gyfrifol:

*"I've met with him several times and officials have met with him several times to try and flesh out, I suppose, what he wanted. … I think* [the Bill] *has changed a lot since Peter Fox first introduced this Bill into the Senedd. I think in the beginning, it was perhaps very vague, and it was trying to find out exactly what he wanted. I'm not sure we've been able to agree on many things, unfortunately, going forward. I don't know whose fault that is, but I've certainly had the opportunity and given Peter Fox the opportunity to try and work with him."*[26]

**28.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd nad oedd hi a'i swyddogion wedi gwneud llawer iawn i geisio llunio a diwygio'r Bil yn ystod ei ddatblygiad, am y rheswm a ganlyn:

*"I think a lot of what Peter wants now is based on the Good Food Nation (Scotland) Act 2022. And again, because we've got the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 here in*

[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [75, 77, 83–84]
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [26]

*Wales, and Scotland have got nothing—not many countries have got anything very similar to the well-being of future generations Act … you're trying to put a round peg into a square hole, really, because the legislation is so different."*[27]

**29.** Fodd bynnag, roedd yr Aelod sy'n gyfrifol yn anghytuno â honiad y Gweinidog bod y Bil yn seiliedig ar *Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022*:

*"Yn fyr – nid yw hyn yn wir. Does ond rhaid i chi gymharu testun y Bil Bwyd yn erbyn darpariaethau Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022 ("Deddf yr Alban") i weld, er eu bod yn ymdrin â materion tebyg, eu bod wedi'u drafftio mewn ffyrdd gwahanol iawn, ac yn cynnwys darpariaethau gwahanol iawn.*

*Enghraifft dda o hyn yw cynnwys nodau bwyd yn y Bil – nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Neddf yr Alban. Mae'r Gweinidog yn gywir i nodi bod y fframwaith deddfwriaethol rydym yn gweithio ynddo yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a geir yn yr Alban. Mae'n deg dweud hefyd, fel y gwelir o'r ffaith bod nodau bwyd cyffredinol wedi'u cynnwys, mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y Llywodraeth a ddylanwadodd ar ddatblygiad y Bil Bwyd yn fwy na Deddf yr Alban.*

*Byddai amseriad y ddau Fil hefyd wedi ei gwneud yn anodd iawn i'r Bil Bwyd fod yn seiliedig ar Ddeddf yr Alban. Cyflwynwyd Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban) i Senedd yr Alban ar 7 Hydref 2021. Cyflwynwyd fy nghynnig cychwynnol (gan gynnwys yr alwad am Gomisiwn Bwyd a strategaethau bwyd) i broses bleidleisio'r Senedd sawl mis cyn i'r Bil hwnnw gael ei gyflwyno."*[28]

**30.** Yn olaf, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol y canlynol mewn perthynas ag ymgysylltiad y Gweinidog â manylion y Bil:

*"… roedd yn siomedig nad oedd y Gweinidog wedi ymgysylltu â manylion y Bil yn ôl pob golwg. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi mai 'nid ei Bil hi' ydyw, bydd gan y Bil Bwyd oblygiadau mawr i Weinidogion Cymru pe bai'n llwyddo i gael cefnogaeth y Senedd i fod yn Ddeddf Senedd Cymru."*[29]

---

[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [27]
[28] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalen 2
[29] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalen 4

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**31.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol bod angen "llwyfan statudol cryfach ar gyfer system fwyd Cymru i'w helpu i ddiwallu'n well yr anghenion a'r heriau y mae cymunedau ar draws y wlad yn eu hwynebu"[30] am resymau sy'n cynnwys y canlynol:

- nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar fwyd yn gydgysylltiedig;[31]
- bod "diffyg gwaith craffu cyffredinol" ar bolisi bwyd yn bodoli;[32]
- mae gan gyrff cyhoeddus "agweddau gwahanol ac anghyson iawn tuag at bolisi bwyd" yn eu cylch gwaith;[33]
- mae cynlluniau bwyd Llywodraeth Cymru yn "canolbwyntio ar bethau gwahanol, gan arwain at ddryswch rhwng nodau polisi";[34]
- nid yw'r manylion am gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno Strategaeth Bwyd Cymunedol wedi'u cyhoeddi eto, ac nid yw'r amseriadau ar gyfer ei rhoi ar waith yn hysbys;[35]
- mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu bwyd yn "canolbwyntio ar weithgynhyrchu a phrosesu bwyd ac nid yw'n darparu'r dull cyffredinol sydd ei angen ar gyfer y system fwyd yn ei chyfanrwydd";[36] ac
- mae materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd yn gofyn am greu fframwaith i'w hystyried gyda'i gilydd yng nghyd-destun Cymru.[37]

**32.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol i gyfiawnhau'r angen am y Bil. Dywedodd wrthym:

> *"Many stakeholders, over the months we talked to them through the consultation process, have highlighted how there is a lack of scrutiny of policy on the wider food system in Wales,*

[30] Memorandwm Esboniadol, paragraff 16
[31] Memorandwm Esboniadol, paragraff 17
[32] Memorandwm Esboniadol, paragraff 18
[33] Memorandwm Esboniadol, paragraff 19
[34] Memorandwm Esboniadol, paragraff 24
[35] Memorandwm Esboniadol, paragraff 33
[36] Memorandwm Esboniadol, paragraff 46
[37] Memorandwm Esboniadol, paragraff 58

*meaning that policy is generally not being consistently designed to meet the challenges of today and tomorrow. …*

*Also, it's been found that there's a very inconsistent approach in certain policy areas relating to food across the piece, without any formal regulation over the top of them. So, some public bodies will interpret rules or legislation in different ways, or strategies in different ways, and there's an inconsistent approach to how food policy is generated or adhered to. That leads to weaknesses. You've not got a consistent approach across the piste, and you're not moving towards a robust, joined-up food system.*

*So, there's a very patchy policy framework, we believe, as it currently is, that doesn't join up the dots. There are some great bits of legislation that have been developed. They sometimes contradict themselves, don't necessarily talk to each other, but they certainly don't talk to a wider overarching food perspective that drives us towards that sustainable food system and ensures food security."*[38]

**33.** Darparodd yr Aelod sy'n gyfrifol ragor o fanylion am y dirwedd ddeddfwriaethol bresennol y mae'r Bil yn ceisio ei gwella:

*"… you've obviously got the Agriculture Act 2020, you've got the sustainable farming scheme, which is coming in to align with that, you've got the environmental Bill, you've got the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill, you've got various strategies—all of these things. … what was coming back as a recurrent theme from many of the people we talked to was that, often, legislation is developed in this place in silos. It's got a portfolio mentality that addresses its current thinking, but what it doesn't have is an overarching goal to align to. … there are some examples of where there is non-alignment between strategy on food and drink and things like that, whereas you would hope that, whilst each piece of legislation has got good intention, it would have some synergy with other bits of*

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [8-10]

*legislation so that it delivers a wider goal and it doesn't compete or have different interpretations or a lack of clarity."*[39]

**34.** Fodd bynnag, nid yw'r Gweinidog yn gweld bod angen y Bil. Yn ei barn hi:

> *"I don't think the legislation is necessary. There are some very complex issues about food. … the Bill that's now been brought forward—which I think has changed quite a lot since Peter first brought it to the attention of the Senedd—doesn't really provide the solutions to the many complex issues that have been mentioned in the explanatory memorandum that's come forward with the Bill."*[40]

**35.** Roedd yr Aelod sy'n gyfrifol yn anghytuno â honiad y Gweinidog fod y Bil wedi newid yn sylweddol yn ystod ei ddatblygiad:

> *"Yr unig wahaniaeth sylweddol rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r cynnig a gyflwynwyd i'r Senedd, ac y cytunwyd arno ar 17 Tachwedd 2021, yw bod y Nodau Bwyd a'r targedau cysylltiedig wedi'u cynnwys. Gan fod y Nodau Bwyd eu hunain yn rhoi mecanwaith ar gyfer helpu i gyflawni amcanion polisi'r Bil, nid wyf yn credu bod hyn yn wahanol i'r amcanion polisi a amlinellwyd yn wreiddiol."*[41]

**36.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd, o fewn y Bil a'i ddogfennaeth ategol, nad oes unrhyw archwiliad i weld a oes ffyrdd o wella gwaith cynllunio neu gydgysylltu drwy'r mecanweithiau presennol sydd ar gael o dan y pwerau presennol a'r fframwaith deddfwriaethol.[42]

**37.** At hynny, dywedodd y Gweinidog:

- pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'r dyletswyddau a fyddai'n dilyn yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth;[43]

[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [40]
[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [7]
[41] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalennau 1-2
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [11]
[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [21]

- roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi llawer o bolisïau a strategaethau ar waith, yn ogystal â'r amcan sydd wedi'i gynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy;[44]
- roedd yn aneglur iddi sut y bydd y Bil hwn yn sicrhau diogeledd bwyd, a bod yn rhaid i'r polisi gael ei wneud ar lefel y DU, er ei bod wedi gwneud llawer iawn o waith ar ddiogeledd bwyd.[45]

**38.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig[46] i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, mae Synnwyr Bwyd Cymru yn dweud bod y Bil yn hanfodol i sicrhau polisi bwyd cydlynol a chynhwysfawr. Pan wnaethom wahodd y Gweinidog i ymateb i'r datganiad hwn, dywedodd:

> *"… it's really disappointing that Food Sense Wales haven't understood the relevance of the policy framework that we already have with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. I think, for me, that's the big disappointment, really. We've already got that policy framework with the Act, and I think it's a real missed opportunity for them to bring forward, again, solutions and ways of working with the current legislation, with our current policies, with the current framework, because we do have that well-being of future generations Act. Everything that we do, we have to do it through the lens of the Act, and I think they've missed a real opportunity there."*[47]

## Strategaeth bwyd cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cymru

**39.** Ym mis Tachwedd 2021, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i "weithio gyda'n gilydd i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol i Gymru er mwyn hyrwyddo gwaith i gyflenwi bwyd lleol yng Nghymru."[48]

**40.** Ym mis Mawrth 2022, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno ymgorffori syniadau'r Aelod sy'n gyfrifol mewn perthynas â'r Bil yn y strategaeth bwyd cymunedol.[49]

---

[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [65]
[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [123]
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Ionawr 2023, Papur tystiolaeth – Synnwyr Bwyd Cymru (Saesneg yn unig)
[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [20]
[48] Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio: rhaglen bolisi lawn, Rhagfyr 2021
[49] Y Cyfarfod Llawn, 9 Mawrth 2022, Cofnod y Trafodion [142]

**41.** Fel y dywed yr Aelod sy'n gyfrifol yn y Memorandwm Esboniadol, rhoddodd y Gweinidog ragor o fanylion am gynnwys arfaethedig y strategaeth ym mis Mehefin 2022:

> *"Polisi Llywodraeth Cymru yw datblygu rhwydweithiau lleol a chlystyrau o gadwyni cyflenwi lle bydd gwneud hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir. … Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn gyfle i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach a hefyd i hwyluso gweithgareddau ar lawr gwlad."*[50]

**42.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r strategaeth bwyd cymunedol, er hynny, dywedodd:

> *"… because of the work that officials—when I say 'officials', I mean 'official'—have had to do on Peter Fox's Bill, that work hasn't been as fast as I would like it to be."*[51]

**43.** Ymhelaethodd y Gweinidog ar y strategaeth bwyd cymunedol arfaethedig yng nghyd-destun darpariaethau'r Bil:

> *"… what I'm not saying is that the community food strategy is the same as Peter Fox's Bill; what I'm saying is that we've already got lots of legislation, lots of policies, lots of strategies in place, as well as we are bringing forward the community food strategy … strategies don't have to be in legislation to achieve and deliver."*[52]

**44.** Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

> *"I would certainly love to see a community food strategy, because there isn't one yet; it hasn't been developed. The Minister has made it clear at ETRA that she has £1.8 million put aside ready to implement it. However, with her limited capacity of staff, and they have been focused on scrutinising this Bill, they haven't been able to advance the community food strategy as they'd wish. However, I understand that it's very much looking at localised, or will look at localised opportunities*

[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mehefin 2022, Papur tystiolaeth – Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, paragraff 8
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [36]
[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [41]

> *to develop food strategies around smaller entities—community-produced food and different things like that.”*[53]

**45.** Tynnodd yr Aelod sy’n gyfrifol sylw hefyd at y ffaith na fyddai modd gorfodi’r strategaeth:

> *“… it wouldn’t make, for instance, food plans—local authorities and public bodies creating food plans that require them to consider. It may suggest that good practice would be to do this, that and the other, as strategies do, but this is what is fundamentally wrong with the current framework is that inconsistent approach to how it’s being looked at, and different people in different bodies deliver to those strategies in different ways, leading to a lack of consistency.”*[54]

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

**46.** Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015* (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol) yn cynnwys dyletswyddau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gymryd camau tuag at gyflawni saith nod llesiant.[55]

**47.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil yn “helpu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni eu dyletswyddau” a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol,[56] a’i fod wedi’i:

> *“… ddrafftio i fod yn gyson â’r dull a fabwysiedir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol; yn arbennig mae’r nodau bwyd yn debyg o ran arddull ac effaith i’r nodau llesiant. Bydd hyn yn sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd yn ddi-dor â’r ddeddfwriaeth bresennol ac yn helpu i sicrhau yr ymgorfforir amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd ar draws system fwyd Cymru.”*[57]

**48.** Soniodd y Gweinidog am ryngweithiad posibl y Bil â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Dywedodd wrthym:

> *“… serious consideration really needs to be given to how the obligations that have been posed by the Bill on public bodies …*

[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [58]
[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [58]
[55] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, dccc 2
[56] Memorandwm Esboniadol, paragraff 14
[57] Memorandwm Esboniadol, paragraff 148

> *and the creation of a Welsh food commission particularly, would fit into the existing governance structures that we have because of the well-being of future generations Act, and also the established responsibilities that we have. So, how would that Bill work in the policy-making environment that we have already and that we adhere to? It's very well established, the framework that we have at the moment, and public bodies also understand what's required of them as well."*[58]

**49.** Honnodd y Gweinidog fod sawl ffordd y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyflawni nodau'r Bil, gan gynnwys creu byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a nod 'Cymru Iachach'.[59]

**50.** Cyfeiriodd y Gweinidog at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei sylwadau yn cymharu'r Bil â *Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022* (cymhariaeth y mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn dadlau yn ei chylch, fel y nodwyd yn flaenorol):

> *"… this Bill really is based on the Good Food Nation (Scotland) Act 2022, and they have nothing like the well-being of future generations Act, so the Scottish approach to me is neither appropriate nor necessary."*[60]

**51.** Gofynnodd y Gweinidog hefyd a oedd y Bil yn gosod cynsail ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol:

> *"I think there is a lot of risk here … As a Government, you wouldn't want to do it with such a high level of risk being there, because I do think if this Bill were to progress, there could be a precedent of legislating on a single issue, and then you would undermine the current overarching governance system and principles that already exist with the well-being of future generations Act, which already has the scope and that flexibility to accommodate very diverse policy issues such as food."*[61]

**52.** Ymatebodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol i sylwadau'r Gweinidog:

[58] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [48]
[59] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [52]
[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [48]
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [49]

> *"I think it's disappointing that the future generations Act …* [is] *being used as an excuse not to do something.*
>
> *I know we shouldn't just legislate for legislation's sake, but we've had a lot of discussions with the Future Generations Commissioner for Wales—the outgoing future generations commissioner, sorry—about how she sees that argument, and her opinion was that, actually, she could see the need for this Bill. She has supported this Bill throughout its process, and she has talked about issues with capacity within her office, capacity within knowledge and expertise that perhaps doesn't cross cut into the food policy framework."*[62]

**53.** Ymhelaethodd yr Aelod sy'n gyfrifol ar ei ymgysylltiad mewn perthynas â'r Bil gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar y pryd, Sophie Howe, gan nodi:

> *"I met with the outgoing commissioner only last week at an event, and I talked about how we were progressing and she wishes this well. … I said, 'A few have suggested that this is something your area could pick up.' She said, 'No, this is too broad, too wide', and that was only last week."*[63]

## Ffyrdd ar gyfer ymgorffori darpariaethau'r Bil mewn deddfwriaeth arall

**54.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol rannu ei farn ynghylch a allai darpariaethau'r Bil gael eu hymgorffori drwy welliannau i unrhyw filiau presennol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol, os na chytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil neu os yw'n methu fel arall. Dywedodd wrthym:

> *"Mae gan y Bil Amaethyddiaeth, sydd yng Nghyfnod 2 ar hyn o bryd, gwmpas eang sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer ffermio cynaliadwy. Fodd bynnag, nod y Bil Bwyd (Cymru) fel yr wyf wedi'i nodi, yw galluogi cyflwyno dull gweithredu traws-bortffolio cyfannol o ymdrin â bwyd – ac mae sefydlu'r Comisiwn Bwyd yn ganolog i hynny. Felly, mae'n anodd gweld sut y byddai darpariaethau'r Bil Bwyd yn dod o fewn cwmpas y Bil Amaethyddiaeth.*

[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [13]
[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [16]

*Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) bellach wedi cwblhau ei daith drwy'r camau diwygio. Er y gallai fod cwmpas cyfyngedig i gynnwys gwelliannau ar gaffael lleol, nid oeddwn yn teimlo ei bod yn briodol cyflwyno gwelliannau ar faterion yr oeddwn yn bwrw ymlaen â hwy yn fy Mil fy hun, yn ystod Cyfnod 1 o'i daith ddeddfwriaethol.*

*Nid wyf yn credu bod unrhyw Filiau eraill yn rhaglen ddeddfwriaethol bresennol y Llywodraeth a fyddai'n galluogi i ddarpariaethau'r Bil Bwyd gael eu hymgorffori drwy welliant. Nid yw manylion rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn hysbys eto felly nid yw'n bosibl rhagweld lle y gellid cynnig gwelliannau posibl i ymgorffori darpariaethau'r Bil."*[64]

## Effaith Deddf y Farchnad Fewnol

**55.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd wedi asesu a oedd *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf y Farchnad Fewnol) yn effeithio ar y Bil. Dywedodd swyddog a oedd gydag ef:

*"… we've come to the conclusion that that Act wouldn't have an effect on this Bill. I think the Member's intentions are quite clear from the beginning of this that what he wants is to have a piece of legislation that has a real practicable impact on people in Wales and the food system in Wales, and the Bill has been designed to ensure that. For example, food labelling policies haven't been taken forward, because of the concern that strengthening the requirement on food labelling in Wales might not have the desired impact in practice, because of the effect of that Act. So, that's the analysis that we've undertaken, and everything's been done to ensure that it has a practicable impact on food policy in Wales."*[65]

**56.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn ystyried bod darpariaethau'r Bil yn ymwneud â Deddf y Farchnad Fewnol gan nad yw'n gwahardd nac yn cyfyngu, er enghraifft, ar werthu bwyd neu gynhyrchion eraill yng Nghymru.[66]

[64] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 11
[65] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [49]
[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [34]

## Y cydbwysedd rhwng wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

**57.** Mae'r Bil yn cynnwys 26 o adrannau ac Atodlen, ac mae'n cynnwys tri phŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae Tabl 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r pwerau hyn, a chânt eu hystyried yn fanwl yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

**58.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol nodi ei ddull o sicrhau cydbwysedd rhwng cynnwys manylion ar wyneb y Bil a dirprwyo pwerau gwneud rheoliadau. Atebodd swyddog a oedd gydag ef ar ei ran:

> *"I think Peter has been clear from the start, when preparing the Bill, that he wanted a balance of a clear structure of what is expected from the Welsh Ministers from the Bill and what we want them to do, but underpinned by the flexibility to allow them to react to changing circumstances over time, if we look at the targets and the food goals, that they can evolve as time goes on. But if you look at what's been left off the face of the Bill for regulations, all of the regulations made under the Bill are subject to the affirmative procedure, so they'll all have to be approved by the Senedd. In addition to that, all the regulations are subject to some sort of consultation requirement, so there's no allowance for the Welsh Ministers to act unilaterally, for want of a better phrase; they'll have to consult with either the commission or other relevant bodies when preparing those regulations. So, even though the detail isn't on the face of the Bill in that sense, there's that reassurance that, whatever is passed by regulations will have gone through a consultation process and then the approval process of the Senedd. So, there is that backboard of, 'That will happen, even though we can't see it now, it will be subject to scrutiny down the line'."*[67]

**59.** Darparodd swyddog arall a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol ragor o fanylion am y dull a ddefnyddiwyd:

> *"I think we all understand that the committee prefer as much detail on the face of the Bill, rather than issues being left to regulations and I think we completely understand and agree with that. … But, as the Member in charge mentioned earlier,*

[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [64]

*we're in this very peculiar position where we're designing a Bill to be enacted by other people. In an ideal world, Peter would be the Minister, we'd be Government officials, and we'd be able to design the Bill as we would enact it. So, we've had to strike a bit of a balance between what we would like this legislation to do and also being aware that if we put something into the Bill and Ministers have a different interpretation of what's in the Bill, then that might cause a conflict, and that also might mean the Ministers and officials won't actually support this Bill as it stands. So, we've had to inbuild it with flexibility through this process."*[68]

## Ein barn ni

**60.** Rydym yn croesawu penderfyniad yr Aelod sy'n gyfrifol i ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno. Rydym yn ystyried hyn yn arfer gorau, o ystyried y manteision posibl i ansawdd y gyfraith a gynhyrchir, a chredwn y dylai cynigwyr deddfwriaeth sylfaenol ddilyn y dull hwn.

**61.** Rydym hefyd yn nodi'r ymgysylltiad rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog cyn cyflwyno'r Bil. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o glywed tystiolaeth, a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog, sy'n awgrymu nad yw'r Gweinidog wedi ymgysylltu'n ddigonol â manylion y Bil.

**62.** Felly, credwn y byddai'n fuddiol ystyried a ellid cyflwyno proses dryloyw i sicrhau bod Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd gan y Senedd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod yn gallu ymgysylltu'n llawn â Gweinidogion a'u swyddogion ynghylch manylion eu deddfwriaeth arfaethedig, os ydynt am wneud hynny.

**Argymhelliad 1.** Fel rhan o'i adolygiad o'r weithdrefn Bil Aelod, dylai'r Pwyllgor Busnes ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno proses fwy dryloyw ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion ac Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod.

**63.** Rydym yn cydnabod rhesymeg yr Aelod sy'n gyfrifol am yr angen am y Bil, a bod yr ymgynghoriad ar y Bil drafft wedi cael cefnogaeth eang. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r Gweinidog yn cefnogi'r angen am y Bil, ac yn nodi ei sylwadau y byddai'r dyletswyddau a nodir ynddo yn defnyddio adnoddau sylweddol.

[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [68]

**64.** Rydym hefyd yn nodi bod strategaeth bwyd cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac yn nodi sylwadau'r Gweinidog nad oes rhaid i strategaethau fod mewn deddfwriaeth er mwyn cyflawni.

**65.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod dadl yr Aelod sy'n gyfrifol na fyddai gan strategaeth sydd â'r un dibenion â darpariaethau'r Bil rym statudol. Rydym hefyd yn cydnabod barn yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog ar y modd y mae'r Bil yn rhyngweithio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn benodol, nodwn sylwadau'r Gweinidog y dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i sut y bydd y dyletswyddau sy'n ofynnol gan y Bil yn cyd-fynd â dyletswyddau presennol yn y fframwaith a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn siomedig o glywed am ddiffyg ymgysylltiad y Gweinidog â manylion y Bil; ymgysylltiad a allai fod wedi darparu ar gyfer ystyriaeth fanwl o faterion, megis ei ryngweithiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**66.** Rydym hefyd yn nodi datganiad yr Aelod sy'n gyfrifol y bydd y Bil yn ffitio'n ddi-dor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Credwn, pe bai'r Bil yn mynd rhagddo, y dylid ei ddiwygio i ddarparu bod yn rhaid cyhoeddi canllawiau statudol i roi eglurder i gyrff cyhoeddus ar hyn a sut y bydd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gweithio gyda'i gilydd.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus ar sut mae'r dyletswyddau a osodir arnynt gan y Bil yn rhyngweithio â'u dyletswyddau presennol o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

**67.** Awgrymodd y Gweinidog inni y gallai'r Bil osod cynsail ar gyfer deddfu ar un mater, gan danseilio'r fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ein barn ni, nid ydym yn credu y dylid defnyddio bodolaeth y Ddeddf honno, ynddi'i hun, fel rheswm dros beidio â deddfu ar yr hyn y gellir ei ystyried yn fater unigol, fel y mae'n ymddangos bod y Gweinidog yn ei awgrymu.

**68.** Rydym yn nodi, ac yn tynnu sylw'r Senedd, at ddatganiad yr Aelod sy'n gyfrifol nad oes deddfwriaeth ger ei fron ar hyn o bryd, ac nad oes unrhyw ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio ar hyn o bryd o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a fyddai'n caniatáu ar gyfer ymgorffori darpariaethau'r Bil pe na bai'n mynd rhagddo.

**69.** Rydym hefyd yn nodi'r datganiadau a wnaed gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog sy'n dod i'r casgliad nad yw Deddf y Farchnad Fewnol yn effeithio ar ddarpariaethau'r Bil.

**70.** Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'i swyddogion ar gydbwysedd yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil, a'r hyn sy'n weddill i is-ddeddfwriaeth. Rydym yn fodlon ar y cydbwysedd hwn, yn amodol ar y safbwyntiau a nodwyd gennym ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth yn adran nesaf yr adroddiad.

**71.** Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed a oedd yn nodi'r heriau a ddaw yn sgil cynnwys darpariaethau mewn Bil Aelod i Lywodraeth eu gweithredu.

# 4. Sylwadau penodol ar adrannau a phwerau neilltuol i wneud is-ddeddfwriaeth

## Adrannau 2 a 3 (Prif nod bwyd a nodau bwyd eilaidd)

**72.** Mae adran 2 o'r Bil yn nodi nod bwyd sylfaenol, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus[69] gymryd camau rhesymol i'w ddatblygu, ar gyfer darparu'r canlynol:

> *"… bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru."*

**73.** O fewn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi mai'r prif nod bwyd yw:

> *"… darparu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu fel man angori y bydd polisi sy'n cael ei greu drwy'r Bil yn ceisio ei gyflawni."*[70]

**74.** Mae Tabl 1 yn adran 3 o'r Bil yn rhestru cyfres o nodau bwyd eilaidd – llesiant economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a gwastraff bwyd – y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd gymryd camau rhesymol i'w datblygu. Mae'r Bil yn rhoi disgrifiad o bob un o'r nodau hyn.

**75.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y nodau bwyd eilaidd yn:

> *"… fundamental component parts, because through their breakdown and their indication, they create the blocks that need to have targets put alongside them to achieve the overarching food goal. There are many different interpretations; you could have elements within the food goals, and Welsh Ministers, by regulation, can amend the description of those secondary food goals, as laid out in table 1 of the Bill, if they were minded to do so. They would have to do that—I can't remember the rules—however's appropriate. The fundamental point … is not what's necessarily described in those food goals; it's the nature of the targets that the Government align to them."*[71]

---

[69] Diffinnir cyrff cyhoeddus yn y Bil at y diben hwn fel Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau.
[70] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10
[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [93]

**76.** Fodd bynnag, dywedodd fel a ganlyn:

> *"… we've heard from different people about the nature of secondary goals. Could they be worded differently? Could they be more aligned to the Future Generations Commissioner for Wales? And, you know, it's a fair challenge. Don't forget, as I shared here, the Bill very clearly does say that if the Government and the legislature decide that they want to change the description of those food goals—even though we can disagree or agree if they should be on the face of the Bill—they have the power to do that via regulation. So, this, in its entirety, is creating a framework that gives … flexibility …"*[72]

**77.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hefyd:

> *"… in and of themselves, the secondary food goals aren't the clarity, but the power is behind the targets, and that's what differentiates this Bill from, for example, our community food strategy in that, when making targets under this Bill, there is that point of reference that the Government have to come back to: 'Have we matched up the targets we're setting with the secondary food goals and the ultimate overarching food goal?' … 'a point of reference' is the best way of describing it. They are there as clarity statements of what is being aspired to, but they will be ultimately underpinned by regulation-made targets that are more quantifiable and set down in legislation what those, as you said, achievable aspects of them are."*[73]

**78.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn glir iawn i Lywodraeth Cymru pam mae'r Bil wedi rhannu materion polisi rhwng nodau sylfaenol ac eilaidd, a holodd a oedd angen y nod bwyd sylfaenol:

> *"I think it's already a complex enough area, and I just think that this would add another level of complexity, and I really question why the primary goal is necessary. But if you look at the detail of the secondary goals, I don't really see why we'd need the primary goals. I think they're very important policy points, the detail of which has been outlined in the goals. I think they're really important policy points, but they're matters that Welsh Government and, I think, other public bodies are already*

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [103]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [109]

*conscious of, and we've got many policies in place that already either deal with those issues or they're planned to deal with those issues."*[74]

**79.** Mynegodd y Gweinidog bryderon hefyd ynghylch cynnwys y gair "fforddiadwy" yn y prif nod bwyd:

> *"What does that mean? Does he* [the Member in charge] *mean Welsh Government should subsidise food, and, if so, to whom and how much? I really don't understand that, so I think we would have to look very carefully at that."*[75]

### Adran 3(2) (Pŵer i ddiwygio'r disgrifiad o nodau bwyd eilaidd)

**80.** Mae adran 3(2) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd.

**81.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r angen am y pŵer hwn, ac amlinellu'r mesurau diogelu a fyddai ar waith i atal unrhyw ddiwygiad sylweddol i'r disgrifiadau. Mewn ymateb, dywedodd y canlynol:

> *"Mae'n rhesymol disgwyl efallai y bydd angen diwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd dros amser i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Felly, bwriad y pwerau gwneud rheoliadau yw caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen i Weinidogion wneud diwygiadau priodol i'r disgrifiadau heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.*
>
> *Mae rheoliadau i ddiwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd i'w gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, felly byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd ac yn destun dadl a phleidlais. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru hefyd. Credaf fod y rhain yn fesurau diogelu digonol i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r disgrifiadau o'r nodau bwyd yn briodol."*[76]

[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [60]
[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [119]
[76] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 2

## Adran 3(3) (Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i ddiwygio'r disgrifiad o nodau bwyd eilaidd)

**82.** Mae adran 3(3) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru (sydd i'w greu gan y Bil) cyn gwneud rheoliadau o dan adran 3(2).

**83.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff priodol eraill, yn ogystal â Chomisiwn Bwyd Cymru, cyn diwygio'r disgrifiadau. Roedd ei ymateb fel a ganlyn:

> *"Y bwriad drwy'r Bil yw y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn arwain y gwaith ar symud ymlaen â'r nodau bwyd, gan chwarae rhan ganolog fel y corff y mae Gweinidogion Cymru yn mynd ato ar gyfer cyngor a gwybodaeth. Dyna pam ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn diwygio unrhyw un o'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd. Nid yw cael y gofyniad hwnnw'n atal Gweinidogion Cymru rhag gofyn am farn cyrff a rhanddeiliaid eraill hefyd, er enghraifft, os caiff y disgrifiad o'r nod bwyd eilaidd ar yr amgylchedd ei ddiwygio, caiff Gweinidogion Cymru ofyn am farn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r Comisiwn Bwyd.*
>
> *Os oes consensws ymhlith y Pwyllgor fod angen nodi ar wyneb y Bil y gellir neu y mae'n rhaid ymgynghori â phersonau priodol eraill cyn diwygio'r disgrifiadau, yna mae hyn yn rhywbeth y gallem edrych i'w wneud drwy welliannau yng Nghyfnod 2."*[77]

**84.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa ddull y byddai Llywodraeth Cymru yn ei fabwysiadu ar gyfer ymgynghoriad o'r fath. Mewn ymateb, dywedodd y canlynol:

> *"… as a Government, we are committed to working with a variety of partners, and we see consultation as a very important way of making policy, and, then, taking it forward. …*
>
> *I think it is important to go wider when you're looking for advice and support. We've got very long-standing, strong policy frameworks on making sure that consultation is wide".*[78]

---

[77] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 3
[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [69]

## Ein barn ni

**85.** Rydym yn cydnabod cyfiawnhad yr Aelod sy'n gyfrifol dros gynnwys y nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd yn y Bil.

**86.** Fodd bynnag, nid yw'n glir inni pam mae angen cynnwys nod bwyd sylfaenol, gan ystyried y manylion a ddarperir yn y disgrifiadau ar gyfer y nodau bwyd eilaidd. Yn hyn o beth, nodwn hefyd y pryderon a fynegwyd gan y Gweinidog ynghylch cynnwys y gair "fforddiadwy" o fewn y nod bwyd sylfaenol, a sut y gellir ei ddehongli. Felly, credwn er mwyn sicrhau eglurder ynghylch dehongli amcanion y Bil, y dylid dileu'r nod bwyd sylfaenol o'r Bil.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu adran 2 o'r Bil, sy'n nodi'r nod bwyd sylfaenol.

**87.** Credwn y dylid darparu eglurder hefyd o ran ystyr rhai o'r cysyniadau a'r geiriad sydd wedi'u cynnwys o fewn y nodau bwyd eilaidd a sut y bydd cyrff cyhoeddus yn eu dehongli'n gyson. Er y gallai'r rheoliadau i osod targedau ar gyfer y nodau hyn (fel y trafodir yn yr adran nesaf) ddarparu ar gyfer gwaith dehongli pellach, credwn y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu eglurder ar y mater hwn. At hynny, bydd darparu'r wybodaeth hon yn berthnasol i osod targedau bwyd.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i roi gwybodaeth lawn a chynhwysfawr i gyrff cyhoeddus am y nodau bwyd eilaidd, a sut y maent i'w dehongli.

**88.** Rydym yn nodi eglurhad yr Aelod sy'n gyfrifol o'r mesurau diogelu sydd yn y Bil, gan gynnwys y defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau sy'n diwygio'r disgrifiadau ar gyfer y nodau bwyd eilaidd, a fyddai'n rhoi cyfle i'r Senedd gymeradwyo unrhyw newidiadau.

**89.** Rydym hefyd yn nodi ei ddatganiad, er na ddarperir ar ei gyfer yn adran 3(3) o'r Bil, na fyddai dim yn atal Gweinidogion Cymru rhag ymgynghori â chyrff priodol eraill yn ychwanegol at Gomisiwn Bwyd Cymru wrth geisio diwygio'r disgrifiadau. Fodd bynnag, credwn y byddai ehangu'r ddyletswydd yn adran 3(3) i gynnwys dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw gyrff priodol yn sicrhau ymgynghoriad eang.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 3(3) o'r Bil fel bod y ddyletswydd i ymgynghori cyn diwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd yn gymwys i gyrff priodol eraill yn ogystal â Chomisiwn Bwyd Cymru.

## Adrannau 4 i 7 (Targedau bwyd)

**90.** Mae adran 4 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd.

**91.** Mae adran 4(5) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau o'r fath gael eu gwneud o fewn dwy flynedd ar ôl i adran 4 ddod i rym. Fodd bynnag, mae adran 4(4) yn darparu mai dim ond pan ddaw rheoliadau o dan adran 4(5) i rym y caiff y targedau eu gosod. Gwnaethom awgrymu i'r Aelod sy'n gyfrifol y gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud cyn pen dwy flynedd, ond yn cael eu drafftio fel nad ydynt yn dod i rym tan yn ddiweddarach. Mewn ymateb, dywedodd y canlynol:

> *"… rydym yn derbyn y gall sefyllfa godi pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau o fewn amserlen 2 flynedd sy'n nodi'r targedau ond yn penderfynu hepgor dyddiadau cychwyn ar gyfer y darpariaethau gwirioneddol. O'r herwydd, rydym o'r farn y byddai'n ddoeth lliniaru'r risg hon a phennu dyddiad ar gyfer dod â'r targedau i rym.*
>
> *Byddai hyn yn cael ei wneud drwy welliant Cyfnod 2 i adran 4(5), ar yr amod a ganlyn:*
>
> *"Rhaid i'r rheoliadau cyntaf, sy'n gosod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd, gael eu gwneud* ***a dod i rym*** *o fewn 2 flynedd i'r adran hon ddod i rym.""*[79] [pwyslais gwreiddiol]

**92.** Eglurodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol pam nad yw'r Bil, ar ei wyneb, yn cynnwys terfynau amser erbyn pryd y dylid cyrraedd targedau:

> *"… that's just to reflect … the wide range of things the targets can be set on, and that it was difficult—well, it's almost impossible—on the face of the Bill, to determine what kind of targets are going to be set for what kind of sector, and the varying timescales and realistic timescales of what will be achieved by when. If we tried to place on the face of the Bill, 'Target x has to be achieved by such and such a date', it really reduces the flexibility of the range of targets that can be set. As it is now, there is a requirement that the targets must have a deadline, but that's left for the regulations to set the target. So, a*

[79] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 4

> *regulation passed in 2025 might have a two-year target, whereas a different target being set in subsequent legislation might require a five-year target. And that was drafted in that way to retain that flexibility so that Welsh Ministers can tailor the deadline to the nature of the target being set."*[80]

**93.** Mae adran 5 o'r Bil yn darparu, cyn gwneud rheoliadau i osod y targedau ar gyfer y nodau bwyd eilaidd o dan adran 4, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru, a "[ph]ersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol."

**94.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro ei reswm dros gynnwys y geiriad hwn yn y Bil; ymatebodd swyddog ar ei ran:

> *"The policy intention here was that, in setting targets, there should be some form of independent consultation by the Welsh Ministers so they don't set targets that are either too easy or that don't go far enough. The consultation requirement was put in there with the independence element to ensure that they were not only realistic but that they were something that actually was a real target rather than just a tick-box exercise. That said, we do appreciate that some arm's-length bodies could add value to setting targets. You could look at other commissioners, or if it was an environment example then perhaps Natural Resources Wales could add value in setting environmental targets. But I think it's worth noting that that provision doesn't prevent the Welsh Ministers consulting non-independent persons, there's just the requirement there that they do consult with the independent person to ensure the target is suitable and achievable. But it doesn't prevent them speaking to anyone."*[81]

**95.** Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei fod yn faes efallai bod angen myfyrio arno ymhellach fel nad yw rhywun a allai fod yn ddefnyddiol i gyfrannu neu y gallai'r Llywodraeth fod eisiau ymgynghori ag ef yn cael ei hepgor.[82]

**96.** Pan ofynnwyd iddo a oedd yn argyhoeddedig bod digon o ddata ar gael i osod targedau ystyrlon, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

---

[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [114]
[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [126]
[82] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [128]

> *"... the process for setting targets is clear in section 5(2):*
>
> *'Before making regulations which set a target, the Welsh Ministers must be satisfied that the target can be met.'*
>
> *So, before they set a target, they have to make sure they've got the appropriate data to be able to set the target. ... I would very much hope if they feel there's a target needed to achieve one of these things but they're not sure if they've quite got the data, then it may be that that target is one that needs further development before they can actually implement it, and they need to get the data to achieve that end result. And I suppose that's where, sometimes, certain parts of the Bill might take longer to put in place than others."*[83]

**97.** Mae adran 6 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i reoliadau o dan adran 4 bennu dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir. Mae'r adran hefyd yn darparu, pan na fydd targed wedi'i gyrraedd erbyn y dyddiad adrodd, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru egluro mewn datganiad a osodir gerbron y Senedd pam mae hynny wedi digwydd a nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei gyrraedd "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol". Fodd bynnag, nid yw'r adran yn gosod terfyn amser i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar darged.

**98.** Nid yw'r Bil ychwaith yn darparu ar gyfer canlyniadau os na lwyddir i gyflawni'r nodau bwyd (fel y trafodir yn yr adran flaenorol) neu i lunio'r strategaeth fwyd genedlaethol neu gynlluniau bwyd lleol (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) o fewn yr amserlenni a bennir yn y Bil. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam; dywedodd wrthym:

> *"... mae hyn yn gyson â deddfwriaeth arall yng Nghymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae adran 8 o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi amcanion o fewn cyfnod penodedig heb unrhyw ganlyniadau am fethu â gwneud hynny.*
>
> *Yr hyn y mae'r Bil Bwyd yn ei ganiatáu drwy ei fframwaith yw i'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nodau a'r targedau amrywiol gael ei adrodd i'r Senedd, ac i'r Senedd graffu arno.*

[83] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [118–120]

> *Lle bo'n briodol, mae angen i'r adolygiadau hynny nodi'r rhesymau dros fethu â bodloni'r gofynion perthnasol. Byddai unrhyw fethiannau o'r fath yn cael eu hamlygu drwy'r broses hon, a gellir eu trafod ar lawr y Senedd."*[84]

**99.** Gwnaethom ofyn hefyd i'r Gweinidog a oedd yn credu y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer canlyniadau methu â chadw at y targedau bwyd. Roedd ei hymateb fel a ganlyn:

> *"I think the Senedd has a very good record at holding the Welsh Government to account … I think the ultimate consequence of anything like that is done at the ballot box. That's where Government is held to account; that's where we as Members are held to account. This Bill would make the Welsh Government lay reviews to the Senedd, for instance, every five years, so there would be plenty of opportunity for that."*[85]

### Ein barn ni

**100.** Rydym yn cydnabod bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 4 o'r Bil gael eu gwneud a dod i rym o fewn dwy flynedd ar ôl i'r adran ddod i rym.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 4(5) o'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod un neu fwy o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd gael eu gwneud a dod i rym o fewn dwy flynedd ar ôl i adran 4 ddod i rym.

**101.** Rydym yn cydnabod awgrym yr Aelod sy'n gyfrifol y caiff ailedrych ar y geiriad "[p]ersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol" sydd wedi'i gynnwys yn adran 5(1)(b) o'r Bil. Rydym o'r farn, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, y dylai'r geiriad nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r holl randdeiliaid y maent yn eu hystyried yn briodol i ymgynghori â hwy.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ehangu'r ddyletswydd yn adran 5 o'r Bil i ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru i gynnwys cyrff y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol i ymgynghori â hwy hefyd.

---

[84] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 10
[85] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [116]

**102.** Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol mewn perthynas â dulliau adrodd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ac yn nodi bod adran 6 o'r Bil yn cynnwys mecanwaith i Weinidogion Cymru egluro i'r Senedd os nad yw targed wedi'i gyrraedd, a pham.

## Adrannau 8 i 10 a'r Atodlen (Comisiwn Bwyd Cymru)

**103.** Mae adran 8 o'r Bil yn darparu ar gyfer creu Comisiwn Bwyd Cymru fel corff corfforaethol.

**104.** Mae adran 9 yn nodi amcan y Comisiwn, sef hybu a hwyluso:

- hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd gan gyrff cyhoeddus; a
- chyflawni'r targedau bwyd.

**105.** Mae adran 10 yn nodi swyddogaethau'r Comisiwn, sef:

- datblygu, a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu, polisïau mewn perthynas â materion bwyd;
- cynghori, hysbysu a chynorthwyo cyrff cyhoeddus, a phersonau eraill, mewn perthynas â materion bwyd;
- rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd am faterion sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am faterion bwyd, a rhoi cyngor iddynt mewn perthynas â'r materion hynny;
- darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd;
- craffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol;
- gweithredu fel ymgynghorai i Weinidogion Cymru pan fydd y nodau bwyd i gael eu diwygio; a
- rhoi cyngor i Weinidogion Cymru wrth iddynt adolygu targedau bwyd.

**106.** Mae'r Atodlen i'r Bil yn nodi'r manylion am sut y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn gweithredu, gan gynnwys y ffaith y bydd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng pump a saith aelod arall, a phob un wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru.

**107.** Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn "ailosod llywodraethiant y system fwyd yng Nghymru, a

bydd yn cyd-greu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill".[86]

**108.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

> *"… the commission is absolutely fundamental to drive this forward to pull together the expertise, not in just food production, but in health, in education, in all those other areas, to help shape the legislative framework. … Through our consultation … you will note that 91.4 per cent of those consulted were in support of a Welsh food commission."*[87]

**109.** Nododd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd bethau sy'n debyg i'r comisiwn a sefydlwyd gan *Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022*:

> "[The Scottish Government has] *just put in a commission, a chair-and-board commission, actually, to deliver moving forward, recognising that they need the expertise to shape that policy. The commission is designed not to stand in the way of the Government at all, but to assist, to bring the expertise to help shape, to be a critical friend, to challenge where necessary. … We have got elements of scrutiny, obviously, with our legislature, the Senedd itself, and future committees' scrutiny, but you'd hope that the Government would welcome the commission in the same way it welcomes a commission for every other, virtually, subject it delivers with one."*[88]

**110.** Fodd bynnag, mynegodd y Gweinidog ei phryderon y byddai Comisiwn Bwyd Cymru yn gorgyffwrdd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn ogystal â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.[89] Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"I think what the Bill fails to recognise is that its functions would overlap with existing bodies that have advisory roles relevant to the goals that the Bill is proposing. So, again, looking at section 10 of the Bill, it's broadly drafted so that the implication here is that the food commission could have functions analogous to the FSA under the Food Standards Act 1999. There are real*

[86] Memorandwm Esboniadol, paragraff 220
[87] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [154]
[88] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [154]
[89] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [83]

*issues around the drafting, I think, of that, and I just think it's going to cause confusion."*[90]

**111.** Roedd yr Aelod sy'n gyfrifol yn anghytuno ag asesiad y Gweinidog o ran y posibilrwydd o swyddogaethau'n gorgyffwrdd rhwng y rhai a nodir yn y Bil ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru a rhai yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dywedodd:

> *"Mae swyddogaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u nodi yn Neddf Safonau Bwyd 1999 … Mae'r swyddogaethau hyn yn weddol helaeth, ond maent hefyd yn benodol iawn yn y rhan fwyaf o feysydd, ac yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar feysydd fel diogelwch a safonau bwyd. Mae eu swyddogaethau cyffredinol o ran bwyd (Adrannau 6 i 8 o Ddeddf 1999) yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf 1999 yn esbonio ymhellach bod y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth y mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd y swyddogaeth o'u darparu yn ymwneud â gwella diogelwch a safonau bwyd. Am y rheswm hwn, nid wyf yn credu bod y rhain yn gorgyffwrdd â swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn Bwyd fel y nodir yn adran 10 o'r Bil, lle nad yw diogelwch bwyd yn ymddangos."*[91]

### Darparu canllawiau gan Gomisiwn Bwyd Cymru

**112.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam nad yw'r Bil yn darparu i Gomisiwn Bwyd Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau mewn perthynas â chyflawni'r nodau a'r dyletswyddau o dan y Bil. Dywedodd wrthym:

> *"Wrth ddrafftio'r Bil, teimlwyd nad oedd angen ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus mewn perthynas â datblygu cynlluniau bwyd lleol gan y rhagwelwyd y byddai'r Comisiwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus wrth arfer ei swyddogaethau o ddydd i ddydd. Nod y fframwaith statudol a nodir yn y Bil yw hyrwyddo cydweithrediad parhaus rhwng y Comisiwn a'r cyrff cyhoeddus perthnasol.*
>
> *Yn ogystal â hyn, mae'r Bil yn darparu llwybrau eraill i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ryngweithio â'r*

[90] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [84]
[91] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalen 3

*Comisiwn wrth baratoi'r strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol, yn ôl eu trefn:*

- *wrth baratoi'r strategaeth fwyd genedlaethol, mae adran 13(1)(a) o'r Bil yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor y Comisiwn; ac*
- *wrth baratoi'r cynlluniau bwyd lleol, mae adran 18(1)(a) o'r Bil yn darparu y gall corff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn wrth baratoi cynllun bwyd lleol.*

*I Weinidogion Cymru, mae gofyniad eu bod yn ceisio cyngor gan y Comisiwn. I gyrff cyhoeddus, mae ceisio cyngor yn opsiwn yn hytrach na gofyniad. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, ond mae'n cydnabod y gall corff cyhoeddus mewn rhai achosion ystyried bod ganddo ddigon o wybodaeth eisoes i baratoi cynllun, heb gyfraniad pellach gan y Comisiwn.*[92]

**113.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog a oedd o'r farn y dylai fod gofyniad i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau o'r fath. Yn ei hymateb, dywedodd:

*"… I don't think it should. I think it's very clear in the Bill. The commission can provide advice, it can inform, and it can assist, and there's already a specific provision in the section that refers to the food commission to provide oversight and performance review of the exercise of the functions of public bodies in relation to the food goals and targets. From my point of view, I think that's absolutely sufficient."*[93]

## Darpariaethau yn dod i rym

**114.** Yn unol ag adran 25 (cychwyn), mae'r Bil yn darparu y caiff Comisiwn Bwyd Cymru ei sefydlu dri mis ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol.

**115.** Mynegodd y Gweinidog ei barn inni ar yr amserlen arfaethedig hon:

*"… there are two issues: one is the timetable. So, Peter Fox is proposing it's done within three months. That's very quick. I think the future generations commissioner, it took two and a*

[92] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalen 5
[93] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [82]

> *half years to set it up. … And the other is the cost. There is no money. Everybody knows how difficult the budgets are … I don't think we need it, so I suppose that's the bottom line".*[94]

**116.** Fodd bynnag, roedd yr Aelod sy'n gyfrifol o'r farn bod sylwadau'r Gweinidog yn gamarweiniol. Dywedodd wrthym:

> *"… mae'r darpariaethau cychwyn a nodir yn y Bil yn darparu y bydd y Ddeddf yn dod i rym dri mis ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn cael ei sefydlu fel corff corfforaethol bryd hynny (yn unol ag Adran 8). …*
>
> *Nid yw sefydlu corff statudol yn y gyfraith ar bwynt penodol (yn yr achos hwn dri mis ar ôl Cydsyniad Brenhinol) yr un fath â'i gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw fod wedi'i ffurfio ac yn gwbl weithredol ar yr adeg honno. Nid oes amserlenni o fewn y Bil sy'n nodi pryd mae'n rhaid i'r Comisiwn fod yn weithredol."*[95]

### Ein barn ni

**117.** Rydym yn nodi tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol o ran yr angen am ddarpariaethau i greu Comisiwn Bwyd Cymru. Fodd bynnag, rydym yn bryderus o glywed sylwadau'r Gweinidog y gallai ei swyddogaethau orgyffwrdd â rhai yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**118.** Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n gyfrifol, a'r Gweinidog, na ddylai'r Bil ddarparu i Gomisiwn Bwyd Cymru gyhoeddi canllawiau ar gydymffurfio â darpariaethau'r Bil.

**119.** At hynny, er ein bod yn deall pryderon y Gweinidog o ran darpariaethau'r Bil i sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru o fewn tri mis i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, rydym yn cytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol mai dim ond ar gyfer creu'r Comisiwn fel endid cyfreithiol y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer. Rydym yn fodlon felly bod y ddarpariaeth hon yn briodol.

## Adran 12 (Strategaeth fwyd genedlaethol)

**120.** Mae adran 12 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn dwy flynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym, osod strategaeth fwyd genedlaethol gerbron y

[94] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [71]
[95] Llythyr gan Peter Fox AS, 25 Ionawr 2023, tudalen 3

Senedd. Diben y strategaeth fyddai datblygu'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd a chyflawni'r targedau bwyd.

**121.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam nad oes angen i'r Senedd gymeradwyo'r strategaeth fwyd genedlaethol, yn ogystal â'i gosod gerbron y Senedd. Dywedodd wrthym:

> *"Fy nealltwriaeth i yw nad yw'n arferiad arferol i bolisïau / strategaethau Llywodraeth Cymru gael eu cymeradwyo gan y Senedd. O ystyried nifer y polisïau / strategaethau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, nid wyf yn siŵr a fyddai'n gweithio'n ymarferol i'r rhain gael eu cymeradwyo gan y Senedd.*
>
> *Mae'r Bil ei hun yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cael cyngor priodol ac yn ymgynghori â phersonau annibynnol sydd ag arbenigedd perthnasol cyn gwneud y strategaeth fwyd genedlaethol. Fel y nodir yn Adran 13, mae hyn yn cynnwys gofyniad i geisio cyngor gan y Comisiwn Bwyd, ac opsiwn i geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar agweddau perthnasol. Credaf fod hyn yn darparu digon o fesurau diogelu i sicrhau bod y strategaeth yn cynnwys barn y sector(au), ac nad oes angen cymeradwyaeth ffurfiol gan y Senedd. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn atal pwyllgorau'r Senedd rhag craffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol."*[96]

**122.** Cytunodd y Gweinidog â'r Aelod sy'n gyfrifol nad oedd angen i'r Senedd gymeradwyo'r strategaeth:

> *"… we've got lots of national strategies as a Government that aren't approved by the Senedd, so I wouldn't think that would be an issue, but what the Bill does require is that Welsh Ministers obviously set and report on the targets, then report on periodic reviews. So, I think there's ample opportunity for the Senedd to be able to hold the Welsh Government to account."*[97]

[96] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 6
[97] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [89]

### Ein barn ni

**123.** Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog y bydd cynnwys gofyniad i'r Senedd gymeradwyo'r strategaeth fwyd genedlaethol yn gosod cynsail ar gyfer strategaethau eraill a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Adran 17 (Cynlluniau bwyd lleol)

**124.** Mae adran 17 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus (yn y cyd-destun hwn, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) lunio a chyhoeddi cynllun bwyd lleol. Yn yr un modd â'r darpariaethau ar gyfer y strategaeth fwyd genedlaethol, mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau bwyd lleol gael eu gwneud a'u cyhoeddi o fewn dwy flynedd i'r Bil ddod i rym, a'u diben fyddai hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd a chyflawni'r targedau bwyd.

**125.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a fyddai gofyniad y Bil i'r strategaeth fwyd genedlaethol a'r cynlluniau bwyd lleol gael eu gwneud o fewn dwy flynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym yn creu sefyllfa heriol i gyrff cyhoeddus sy'n paratoi cynlluniau bwyd lleol, pe na fyddai'r strategaeth fwyd genedlaethol yn cael ei chyhoeddi tan yn hwyr o fewn yr amserlenni hyn. Dywedodd swyddog a oedd gydag ef wrthym:

> *"… there are some areas around the timescales where we might reconsider. This is one of those where potentially at Stage 2, for the reasons you've outlined, you may want to move the local food plans to three years, just in case, for whatever reason, the Welsh Ministers haven't been able to develop their strategy further enough into that two years, so you don't have a clash."*[98]

**126.** Pan holwyd y swyddog a fyddai tair blynedd yn caniatáu digon o amser i gyrff cyhoeddus ddatblygu eu cynlluniau bwyd lleol priodol, ychwanegodd:

> *"I think three years would be appropriate. I think the message from stakeholders, again from a policy perspective, is that there is a real need for this, and it's a case of balancing that, making sure that this is up and running as soon as possible, whilst also giving the Welsh Ministers sufficient time to do it. So, we think the balance between two and three could work well."*[99]

[98] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [134]
[99] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [136]

**127.** Fodd bynnag, mynegodd y Gweinidog ei phryderon ynghylch yr amserlenni hyn:

> *"The timescale is very blunt. There doesn't seem to be much flexibility when it comes to the timescale, and I just don't think there is any flexibility that you really would need to cope with such a complex area where you would then have to plan, you'd have to target set, you'd have to report, you'd have to review activities. I think it would be hard for Government, but I think it would be really hard for other public bodies to fit in with this timescale as well. I really don't think it's realistic to think you could do everything within two years, given the complexity."*[100]

**128.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'n annirnadwy na fyddai Llywodraeth yn gallu llunio strategaeth fwyd o fewn dwy flynedd, ond ychwanegodd:

> *"… we've actually got health boards and councils advocating for this and wanting to do it. Indeed, many are already developing local food strategies and have already put a lot of work in on this. … this is an area where we have to be pragmatic and we have to make sure that we plan for any outcome. If we have to alter some of the time frames, and there is a consequence with altering one time frame, we might then have to review something else as well. But it doesn't detract from the fundamental purpose of what we're trying to do, I don't think."*[101]

## Ein barn ni

**129.** Rydym yn cydnabod awgrym yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai gwelliant i adran 17 o'r Bil fod yn ddymunol i ddarparu y dylai corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun bwyd lleol o fewn tair blynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym. Rydym o'r farn y bydd ymestyn y cyfnod yn y modd hwn yn lleihau'r risg o roi pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus os nad yw Llywodraeth Cymru, am unrhyw reswm, wedi gallu cyhoeddi'r cynllun bwyd cenedlaethol mewn da bryd.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 17 o'r Bil i ymestyn y cyfnod o amser lle dylai corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun bwyd lleol, o ddwy flynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym i dair blynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

---

[100] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [86]
[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [138]

## Adran 22 (Ystyr corff cyhoeddus)

**130.** Mae adran 22(1) yn diffinio, at ddibenion y Bil, cyrff cyhoeddus yn Weinidogion Cymru, awdurdod lleol, neu fwrdd iechyd lleol.

**131.** Mae adran 22(2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ddiwygio'r rhestr hon o ddiffiniadau, naill ai drwy:

- ychwanegu corff cyhoeddus;
- dileu corff cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion Cymru;
- diwygio'r disgrifiad o gorff cyhoeddus.

**132.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam yr oedd angen dirprwyo'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru, a phwy y byddai'n rhagweld y byddent yn cael eu hychwanegu at y rhestr neu'n cael eu tynnu oddi arni. Dywedodd wrthym:

> *"… mae'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad yn ôl rheoliadau, yn amodol ar ymgynghoriad, yn caniatáu'r hyblygrwydd iddynt ychwanegu eraill at y rhestr yn y dyfodol os oes angen."*[102]

**133.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog am ei barn ar y pŵer hwn; dywedodd wrthym fod cael yr hyblygrwydd hwnnw'n beth da.[103]

### Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau

**134.** Mae adran 22(5) o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 22, ymgynghori â'r canlynol:

- Comisiwn Bwyd Cymru;
- corff cyhoeddus sydd i'w ychwanegu at y rhestr gan y rheoliadau; ac
- unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

**135.** Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pam nad oes gofyniad i ymgynghori â chorff sydd i'w dynnu oddi ar y rhestr, neu i gael ei enw neu ei ddisgrifiad wedi'i ddiwygio. Mewn ymateb, dywedodd y canlynol:

---

[102] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 7
[103] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [91]

*"Mae'r drafftio a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil yn gyson â deddfwriaeth Gymreig arall gan gynnwys adran 52(4) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd angen ymgynghori bob amser er mwyn ychwanegu corff at y rhestr o gyrff cyhoeddus, er mwyn hysbysu'r corff hwnnw am unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol y bydd yn ddarostyngedig iddynt. Er nad yw tynnu corff oddi ar y rhestr yn gosod unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol ar y corff hwnnw, dim ond dileu'r dyletswyddau hynny, felly ni fydd angen ymgynghori â nhw bob amser. Fodd bynnag, mae adran 22(5)(c) yn darparu, wrth wneud Rheoliadau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol a fydd, yn ôl pob tebyg, yn sicrhau yr ymgynghorir â chorff mewn unrhyw achos os byddant yn cael eu dileu."*[104]

## Ein barn ni

**136.** Rydym yn nodi cyfiawnhad yr Aelod sy'n gyfrifol am y pŵer i wneud rheoliadau o fewn adran 22 o'r Bil.

**137.** Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau y mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi'u darparu dros beidio ag ehangu'r ddyletswydd i ymgynghori o dan adran 22(5) o'r Bil i gynnwys corff cyhoeddus hefyd sydd i'w dynnu oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n glir inni o dan ba amgylchiadau y byddai corff cyhoeddus yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr hon. At hynny, gan fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi dweud wrthym yr ymgynghorir yn ôl bob tebyg â chyrff cyhoeddus sydd i'w tynnu oddi ar y rhestr beth bynnag yn rhinwedd geiriad y Bil, credwn y dylai nodi anfanteision darparu'n benodol ar gyfer ymgynghoriad o'r fath.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'r anfanteision o ddarparu yn adran 22(5)(b) o'r Bil bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â pherson sydd i'w dynnu oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil.

[104] Llythyr gan Peter Fox AS, 8 Mawrth 2023, ymateb i gwestiwn 8